

Hydref / Gaeaf 2022

cwtch

gan Hosbis Blant Tŷ Hafan

Y tu mewn:

Stori Rose

Hefyd yn y rhifyn hwn
Diwrnod ym mywyd
nyrs hosbis

Costau cynyddol



Tŷ Hafan 

CHILDREN'S HOSPICE
HOSBIS I BLANT

Neges gan Maria



Annwyl Bawb,

Croeso i'ch rhifyn Hydref/Gaeaf 2022 o *Cwtch*. Gobeithio y cawsoch chi a'ch anwyliaid haf plaserus.

Fisoedd yn unig ar ôl dathlu ei Jiwbilŷ Platinwm, cawsom ein tristáu gan farwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II. Ar ran holl deulu Tŷ Hafan, anfonais nodyn i gyfleu ein cydymdeimlad dwysaf at Ei Fawrhydi'r Brenin Charles III, ein noddwr ffyddlon ers 2001, ar farwolaeth ei annwyl fam. Rydym yn parhau i feddwl am Ei Fawrhydi, y Frenhines Gydweddog ac aelodau'r teulu brenhinol ehangach, ac yn gweddïo drostynt.

Galar a cholled, cariad a byw yw themâu *stori Rose* sydd wrth wraidd ein hymgyrch codi arian nesaf.

Mae ei rhieni Andrew a Catherine Jeans yn sôn am y gefnogaeth anhygoel y cawson nhw, eu mab Oliver [a'u teulu estynedig] gan Tŷ Hafan, pan gafodd Rose, eu merch fach brydferth, ddiagnosis o ganser nad oedd modd ei drin â llawdriniaeth - a gymerodd ei bywyd mor greulon dim ond ddeuddydd ar ôl ei phen-blwydd cyntaf.

Dyweddodd Catherine wrthym ni: "Ni yw'r rhai anlwcus, lwcus. Sut ydych chi'n gwneud y penderfyniad hwnnw o ran ble i fynd â'ch plentyn i farw? ... Yn yr ysbty mae'n swnllyd, mae'n anhrefnus ac yn glinigol iawn. Mae Tŷ Hafan yn amgylchedd cartrefol. Mae pawb yn cyfrif.

"Os na fyddai Tŷ Hafan yno i ni, wn i ddim beth fydden ni wedi'i wneud."

Gallwch ddarllen mwy am *stori Rose* ar dudalen 7. Ar dudalen 4, byddwch yn gweld gwybodaeth am wahanol ffyrdd y gallwch chi ein cefnogi ni i ddal ati i ddarparu gofal diwedd oes i blant fel Rose a'i theulu sy'n galaru, gan eu helpu nhw i greu atgofion gwerthfawr ac i fyw eto ar ôl colli eu plentyn annwyl. Yn ôl geiriau enwog Ei Mawrhydi ystod y pandemig: "Galar yw'r pris yr ydym ni'n ei dalu am gariad."

Yn olaf, efallai eich bod chi wedi gweld sylw yn y cyfryngau i sut mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar ein helusen, yn arbennig, gyda chynnydd enfawr yn ein biliau ynni. Mae'n siŵr bod yr argyfwng ofnadwy yma'n effeithio arnoch chi hefyd. Gobeithio y gallwch chi barhau i fod yn bositif.

Fel bob amser, rydym yn parhau i fod yn benderfynol yn ein hymrwymiad i fod yno i'r plant a'r teuluoedd y mae ein hangen ni arnyn nhw, ac ni allwn ni wneud hyn heboch chi. Diolch am eich cymorth cadarn.

Cymerwch ofal,

Maria

Maria Timon Samra

Prif Swyddog Gweithredol, Hosbis Plant Tŷ Hafan

02


Cynnwys


| | |
|--|----|
| Neges gan Maria | 02 |
| Costau cynyddol | 03 |
| Siopa'n gynaliadwy ac am lai | 03 |
| Sbotolau ar... godwyr arian cymunedol | 04 |
| Newyddion o'r hosbis | 05 |
| Anfon dymuniadau gorau i'n Brenin a'n noddwr | 05 |
| Gofal diwedd oes mewn lle cartrefol | 06 |
| Stori Rose | 07 |
| Diwrnod ym mywyd nyrs hosbis | 08 |
| Gwirfoddoli gyda Tŷ Hafan | 09 |
| Chwarae ein loteri! | 09 |
| Tŷ Hafan mewn niferoedd | 10 |
| Busnes i fusnes: gweithio gyda ni | 11 |
| Lle mae eich cyfraniadau chi'n mynd | 12 |
| Gwledd Gerddorol Nadoligaidd Gymreig! | 14 |


Hele

Cysylltu â ni...

Mae sawl ffordd o gadw mewn cysylltiad â ni yn Tŷ Hafan

 www.tyhafan.org

 supportercare@tyhafan.org

 029 2053 2255

Costau cynyddol

Gydag effaith enfawr yr argyfwng costau byw ar bob rhan o'n gwaith, mae angen eich help chi yn fwy nag erioed. Efallai eich bod chi wedi gweld ar y newyddion bod ein biliau ynni ni ar fin mynd o £100,000 i £600,000 y flwyddyn. Nawr, disgwylir iddynt fod tua £400,000 y flwyddyn (am y chwe mis nesaf), rydym mewn sefyllfa fwy heriol fyth yn ariannol nag y gwnaethom ni ei hwynebu yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r galw am ein gwasanaethau yn cynyddu, ond rydym ni'n colli rhoddion oherwydd nad yw llawer o bobl yn gallu fforddio rhoi i ni ar hyn o bryd. Mae rhoddion Tŷ Hafan gan unigolion wedi gostwng 50% o'u cymharu â'r llynedd.

Hefyd, gyda phrisiau ynni'n cynyddu'n sylweddol, mae'r cyfarpar arbenigol hanfodol yr ydym ni'n ei ddefnyddio yn yr hosbis yn dod yn fwy drud i'w gynnal.

Gwnaethom ni weithio'n galed i rannu yn y cyfryngau sut mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnom ni, gan gynnwys sylw ar y teledu, radio ac ar-lein gan BBC Cymru Wales, darllediad byw o'r hosbis gyda Good Morning Britain, The Jeremy Vine Show ar BBC Radio 2 ac roedd hyd yn oed sôn amdanom ni ar Newsnight.

Rydym ni wedi cael llawer mwy o sylw ar y radio hefyd ac roeddem ni hefyd ar Newyddion a BBC Cymru Fyw. Diolch o galon i Alex a Felix, Jayde a Savannah-Bleu a Bridget ac Elain am ein cefnogi ni yn ein gwaith ar y cyfryngau.

Wrth gwrs, rydym ni'n ddiolchgar iawn ein bod ni'n gallu rhannu ein stori fel hyn. Rydym ni mor ddiolchgar am haelioni ein cefnogwyr sy'n hanfodol i'n helpu ni i oroesi drwy'r argyfwng cenedlaethol hwn.



Uchaf: Alex a Felix ar Good Morning Britain

Uchod: Jayde a Savannah-Bleu yn cael eu cyfweld ar gyfer BBC Cymru



Gweithdy Gwneud a Thrwsio yn siop Tŷ Hafan Penarth

Siopa'n gynaliadwy ac am lai

Mae dewis prynu eitemau ail-law yn lle rhai newydd sbon yn lleihau tirlenwi ac allyriadau CO₂, gan gadw'ch waled yn iachach a chefnogi achos ardderchog.


Dyna pam yr ydym ni'n eich herio chi i wneud siopa Nadolig eleni - hyd yn oed ychydig ohono! - mewn siopau elusen. Ac os ydych chi'n cymoni cyn y Nadolig, rydym ni'n gwybod faint y bydd ein siopau elusen yn gwerthfawrogi eich rhoddion cyn y tymor manwerthu prysur.

Yn ymgymryd â'r her? Byddem wrth ein boddau'n gweld eich lluniau! Gallwch rannu lluniau o'r hyn yr ydych chi wedi'i brynu gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r hashnod #shoptyhafan.

Mae gennym 19 o siopau Tŷ Hafan ledled Cymru lle gallwch chi brynu eitemau ail-law o safon am ddim ond ffraciwn pris prynu eitemau newydd.

Mae ein siopau'n derbyn tua **1,800** o fagiâu o roddion bob wythnos ac rydym ni wedi gwerthu dros **200,000** o eitemau o ddiplad, **17,000** o barau o esgidiau, a **14,000** o fagiâu llaw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny'n cadw **200,000** kg o ddiplad allan o safleoedd tirlenwi mewn dim ond blwyddyn!

Ond nid ar gyfer amser y Nadolig yn unig y mae ffasiwn ecogyfeillgar! A hithau'n Wythnos Ffasiwn Gynaliadwy, cynhaliodd tîm Tŷ Hafan weithdy Gwneud a Thrwsio yn siop Tŷ Hafan Penarth, gan ddysgu pobl sut i drwsio ac addurno hen ddiplad, yn hytrach na'u taflu yn y bin!



I ddod o hyd i'ch siop Tŷ Hafan agosaf, ewch i www.tyhafan.org/find-your-local-shop

Sbotolau ar... godwyr arian cymunedol

Mae'n ysbrydoliaeth gweld pa mor greadigol yw ein cefnogwyr anhygoel pan fyddan nhw'n codi arian i ni! Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym ni wedi bod yn ddigon ffodus i gael cymorth codi arian mewn amryw o ffyrdd llawn dychymyg.

Gyrrodd **Henry Hales** o Borthcawl i Land's End yn ei gar clasurol a chodi £600 anhygoel ar gyfer Tŷ Hafan. Cafodd **Merle Davies** – aelod annwyl o deulu hosbis Tŷ Hafan – ei noddi i beidio â bwyta cig am fis ac fe gododd £300!

Croesawodd **Ann Knight** o Lanilltud Fawr bobl i ardd Japaneaidd agored a derbyniodd £540 mewn rhoddion ar gyfer ein gwasanaethau. A gwnaeth **merched Claire Drakeley**, teulu gwyach arall yr ydym ni wedi'i gefnogi, roi eu pennau at ei gilydd a chodi £602.08 er cof am eu brawd annwyl Milo trwy fod yn ddewr a thorri eu gwallt.

A dim ond dechrau arni yw hynny!

Rydym yn gwerthfawrogi caredigrwydd pawb sy'n rhoi i ni ac mae cymaint o ffyrdd y gallwch chi godi arian, er enghraifft gwerthu cacennau, noson meic agored neu unrhyw beth arall!

Cysylltu â ni...

Bydd ein tîm codi arian yn hapus i'ch helpu chi hefyd. Cysylltwch â ni drwy ein ffonio ni ar **029 2053 2255** neu anfonwch e-bost atom ar **supportercare@tyhafan.org** a byddwn ni'n sicrhau bod gennych chi bopeth sydd ei angen arnoch chi i gychwyn arni.



Gyrrodd Henry Hales yr holl ffordd i Land's End yn ei gar clasurol i gefnogi Tŷ Hafan!



Cododd gardd Japaneaidd agored Ann Knight £540!



Y chwirydd Drakeley yn dangos eu steiliau gwallt newydd - rydych chi'n edrych yn wych, ferched!

Sut i'n Cefnogi Ni

- 1 Trefnu rhodd reolaidd**
Mae cyfrannu at Tŷ Hafan yn fisol, beth bynnag yw maint y swm, yn rhoi incwm dibynadwy i ni.
- 2 Cynnwys rhodd yn eich ewyllys**
Gallwch gynnwys rhodd i Tŷ Hafan yn eich ewyllys i ddarparu gofal hanfodol i'r teuluoedd yr ydym yn eu helpu.
- 3 Cymryd rhan yn ein loteri**
Gallwch gymryd rhan yn ein loteri Crackerjackpot am £1 yr wythnos am y cyfle i ennill prif wobwr o £2,000, a'r holl elw yn mynd i Tŷ Hafan.
- 4 Siop Tŷ Hafan**
Helpwch ni drwy siopa yn un o'n siopau elusen Tŷ Hafan ar draws Cymru neu gyfrannu eitemau atynt.
- 5 Codi arian**
Gyda'ch cydweithwyr neu yn y gymuned, mae trefnu digwyddiad codi arian yn ffordd wych o godi arian ar gyfer Tŷ Hafan.
- 6 Gwirfoddoli**
Mae gennym ni lawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn ein siopau elusen Tŷ Hafan, yn yr hosbis, a mwy.



Y Ffau

Newyddion o'r hosbis

Mae pethau gwych bob amser yn digwydd yn hosbis Tŷ Hafan. Dyma'r newyddion diweddaraf...

Gwasanaeth Coffa

Roedd yn hyfryd croesawu teuluoedd yn ôl i'n gwasanaeth coffa wyneb yn wyneb cyntaf mewn 2 flynedd. Cafodd ein *Gwasanaeth Coffa* ei gynnal dros yr haf ym mis Mehefin a rhoddodd gyfle i deuluoedd mewn profedigaeth ddod at ei gilydd wrth i ni gofio'u plant. Eleni cawsom ni wasanaeth wyneb yn wyneb ac un rhithwir!

Y Ffau

Mae'r *Ffau* nawr wedi'i ddodrefnu'n llawn! Mae'r *Ffau* yn ardal epig ar gyfer y bobl ifanc sy'n ymweld â Tŷ Hafan. Mae'n lle mwy addas ar gyfer eu hanghenion nhw nag amgylchedd yr hosbis sydd ar gyfer plant iau.

Mae'r *Ffau* yn lle i ymlacio, gwyllo ffilmiau, chwarae gemau fideo, a mwy. Hefyd, mae'r bobl ifanc yr ydym ni'n eu cefnogi wedi bod yn defnyddio eu doniau creadigol drwy helpu i ddylunio'r lle yn yr awyr agored... Efallai y bydd popty pizza a goleuadau ffyni yn dod yn fuan?

Hybiau Aros a Chwarae

Mae ein fan gymunedol wedi bod yn brysur yn teithio lan a lawr yr M4 gan fynd â chwarae, therapiau a chefnogaeth i deuluoedd i'r gymuned. Mae'r hybiau *Aros a Chwarae* yma'n boblogaidd iawn gyda'r teuluoedd yr ydym ni'n eu helpu ac yn rhoi profiad Tŷ Hafan iddyn nhw yn agosach at adref.

Mae wyth hyb *Aros a Chwarae*, a mwy i ddod dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Gall teuluoedd ddod gyda'u plant i chwarae, adrodd straeon, cael therapi cyflenwol, creu cerddoriaeth a sgwrsio gyda staff a ffrindiau.

Mae'r hybiau *Aros a Chwarae* hyn yn wych i rai bach ac maen nhw hefyd yn gyfle i deuluoedd rannu straeon, problemau a datrysiadau.


Trowch i dudalen 8 i ddarllen am ddiwrnod ym mywyd nyrs hosbis Tŷ Hafan

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein Brenin a'n noddwr

Hoffem ni estyn ein cydymdeimlad diffuant i'n noddwr, y Brenin Charles III, y Frenhines Gydweddog a'r teulu brenhinol ehangach ar farwolaeth y Frenhines Elizabeth II.

Roedd y Frenhines wasanaethwraig ymroddedig i'r Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad drwy gydol ei 70 mlynedd ar yr orsedd ac rydym ni mor ddiolchgar i'w Mawrhydi am ei theyrnasiad cyson, urddasol a thosturiol.

Anfonwn bob dymuniad da at ein Brenin a'n Noddwr yn ei swydd newydd fel Pennaeth y Wladwriaeth.



Digwyddiad
brenhinol
Seth

Seth Burke yn cyfarfod â'r Brenin Charles III

Rydym ni mor falch o Seth Burke a wnaeth gyfarfod â'r Brenin Charles a'r Frenhines Gydweddog yn y Senedd fel rhan o'i swyddogaeth fel Aelod Senedd Ieuenctid Cymru. Mae Seth wedi bod yn defnyddio gwasanaethau Tŷ Hafan am dros 5 mlynedd. Ef yw'r defnyddiwr cadair olwyn cyntaf yn y Senedd ei hun a'r Senedd Ieuenctid ac ef yw'r Aelod cyntaf gyda Dystroffi Cyhyrol Duchenne.

Disgrifiodd Seth y profiad gwych hwn: "Roedd yn rhaid i'r Brenin blygu i lawr i siarad â fi oherwydd fy mod i mewn cadair olwyn. Roedd hyn yn ddoniol iawn i fi, oherwydd yn yr holl luniau mae'n edrych fel ei fod yn moesymgrymu i fi! Ysgydodd fy llaw a gofyn i fi a oeddwn i yn dal yn yr ysgol.

Nesaf, cwrddais â'r Frenhines Gydweddog ac roedd hi'n neis iawn hefyd. Gofynnodd a oeddwn i wedi dianc o'r ysgol a dywedodd na fyddai hi'n "dweud" os oeddwn i. Dywedais i, "Diolch – ond mae biliynau o gamerâu yn edrych arnom ni," ac fe wnaeth hi chwerthin am hynny."

Da iawn am wneud hanes, Seth!



Gofal diwedd oes mewn cartref oddi cartref

Efallai o oedran ifanc, rydym ni'n teimlo na allwn ni siarad am farw. I rai, efallai y byddan nhw hyd yn oed wedi'u hannog i beidio. Ond er mor sensitif ydyw, mae'n rhaid i ni siarad am hyn. Rhwng Ebrill a Medi eleni mae 14 o blant wedi marw yn Tŷ Hafan. Yn y cyfnod hwnnw, a thrwy gydol yr holl flynyddoedd yr ydym ni wedi bod yno i deuluoedd, rydym ni wedi gweithio'n ddiflino i wneud y mwyaf o bob eiliad o fywyd plentyn. Dyna yw ein diben ni.

Pan ddaw'r amser i blentyn farw, rydym ni gyda'n teuluoedd bob cam o'r ffordd, gan ddarparu help emosiynol ac ymarferol pryd bynnag a sut bynnag mae ei angen.

Mae yna lawer o fythau ynghylch sut beth yw gofal diwedd oes a phrofedigaeth. Mewn gwirionedd, **mae pob profiad yn unigryw.**

Gofal diwedd oes yn Tŷ Hafan

Mae gofal diwedd oes yn Tŷ Hafan yn dechrau pan rydym yn cwrrd â'r teulu am y tro cyntaf. Er y gallai teulu boeni am eu plentyn yn marw gartref, mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd yr ydym ni'n gweithio â nhw yn dewis peidio â gweld eu plentyn yn marw yn yr ysbyty. Mae bod yn Tŷ Hafan yn cynnig cydbwysedd iddyn nhw – cartref oddi cartref – gydag arbenigedd gan weithwyr gofal lliniarol proffesiynol.

Mae arbenigwyr ac Ymarferwyr Cymorth i Deuluoedd yn cwrrd â'r teulu i ddod i wybod beth yw eu dymuniadau yn fanwl iawn. Gan weithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y GIG, rydym ni'n llunio ac yn cyflawni cynlluniau gofal unigol.

Mae Ymarferwyr Cymorth i Deuluoedd yn rhoi gofal seicolegol ac emosiynol o safon i deuluoedd i'w helpu i ymdopi â'r teimladau cymhleth ac anorchfygol sydd yn gallu bod ynghlwm â marwolaeth a phrofedigaeth.



Rose Jeans



Andrew a Catherine Jeans

Pan ddaw'r amser i blentyn farw, rydym ni yma, yn gwneud y broses mor gyfforddus a chysurus â phosibl gyda chefnogaeth feddygol fel rheoli poen a dod â chymorth anadlu tosturiol i ben (tynnu'r tiwb o'r ysgyfaint). Gall teuluoedd gael cymaint neu gyn lleied o breifatrwydd a chefnogaeth emosiynol ag sydd ei angen arnyn nhw yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae llety, cyfleusterau a chyfarpar arbenigol i gyd ar gael yn ein hosbis fel bod teulu - a theulu estynedig - yn gallu aros gyda'u plentyn cyn ac ar ôl y farwolaeth.

Rydym yn cynnig cymorth ymarferol i gymryd rhywfaint o'r pwysau o ysgwyddau'r teulu. Gallwn ni gofrestru marwolaeth eu plentyn, helpu i roi gwybod i berthnasau a ffrindiau eraill am eu marwolaeth a chynorthwyo gyda threfniadau'r angladd.

Nid yw cefnogaeth Tŷ Hafan yn dod i ben pan fo plentyn yn marw

Mae ein perthynas â theuluoedd yn parhau ar ôl i blentyn farw. Rydym yn cynnig cyfle i fanteisio ar grwpiau cymorth y mae modd eu defnyddio pryd bynnag y bydd eu hangen, ac am ba mor hir bynnag y mae eu hangen. Ceir mynd i erddi'r hosbis a'n man coffa hefyd i fyfyrto a meddwl yn dawel. Rydym ni yma bob amser am baned a sgwrs. Bob amser.

Dysgwch fwy. . .

am y mathau o ofal yr ydym ni'n ei gynnig i deuluoedd, ewch i: www.tyhafan.org/how-we-care

Stori Rose

Mae'r teulu Jeans wedi cael profiad gofal diwedd oes yn Tŷ Hafan.

Bu farw Rose, merch fach Andrew a Catherine Jeans, o Diwmor Teratoid/Rhabdoid Annodweddiadol (ATRT) ddyddiau'n unig ar ôl ei phen-blwydd cyntaf.

“Pe na bai Tŷ Hafan yno i ni, wn i ddim beth fydden ni wedi'i wneud. Rhoddodd Tŷ Hafan breifatrwydd i ni. Ond roedd hi dal yn bosibl i ni gael teulu o'n cwmpas ni. Roedd Tŷ Hafan yn eu galluogi nhw i gyd i fod yno i ni. Mae'n gartref oddi cartref. Mae pawb yn bwysig. Yn yr ysbyty mae'n wahanol, mae'n swllyd, mae'n anhrefnus ac yn glinigol iawn,” meddai Catherine wrthym ni.

👂 Mae'n rhaid iddo fod yn opsiwn i rywun. Mae'n rhaid i Tŷ Hafan fod yno. 🗣️ Catherine Jeans

“Beth mae Tŷ Hafan yn ei roi i chi? Adegau y gallwch chi eu rhannu. Cyfeillgarwch. Perthnasoedd yn y cyfnod anoddaf. Ni yw'r rhai lwcus anlwcus. Sut ydych chi'n gwneud y penderfyniad hwnnw o ran ble i fynd â'ch plentyn i farw?”

“I ni, nid oeddem ni eisiau mynd adref i Rose farw gartref oherwydd mae'n rhaid i chi fyw yn y tŷ yna wedyn.

“Mae'r hyn y mae Tŷ Hafan yn ei roi i chi yn amhrisiadwy. Ni fyddem ni wedi darparu'r hyn a wnaeth Tŷ Hafan ar gyfer ein merch. Roedd y gofal a'r cariad y gwnaeth Tŷ Hafan eu dangos yn anhygoel. Gallem ni ddod at ein

Wyddoch chi...?

Mae creu atgofion yn rhan fawr o ofal diwedd oes yn Tŷ Hafan. Gall gynnwys pob math o weithgareddau, fel profiadau cyffrous, addurno ystafell y plentyn gyda'i hoff bethau, tynnu lluniau, gwneud printiau llaw a chastiau llaw a chreu gwaith celf ar y cyd.

Wyddoch chi...?


Wyddoch chi fod gennym ni saith grŵp cymorth therapiwtig, fel ein clwb gwych i frodyr a chwiorydd?

Mae'r grwpiau hyn yn rhoi lle i deuluoedd siarad ag eraill sy'n deall eu sefyllfa.

Wyddoch chi...?

Wyddoch chi ein bod ni'n cofio plant gyda'n Prosiect Cŵn yr Adar?

Pan fydd plentyn yn marw yn Tŷ Hafan, mae ei enw'n cael ei gyfieithu i gân aderyn (cân yr aderyn sy'n canu uchaf yn ystod y mis y cafodd ei eni). Mae eiliad o dawelwch am bob blwyddyn o'u bywyd yn dilyn cân yr aderyn.



Gall teuluoedd wrando ar ganeuon yr adar mewn man heddychlon iawn yn ein gardd.

gilydd ar gyfer pen-blwydd cyntaf Rose. Cafodd Oliver [mab Andrew a Catherine] ei ddiddanu a oedd yn golygu y gallem ni ganolbwyntio ar Rose.

“Bydd Oliver yn 10 oed ym mis Rhagfyr ac mae ef wedi gorfod mynd drwy gymaint yn ei fywyd yn barod. Ond diolch i Tŷ Hafan, mae e'n dod ymlaen yn anhygoel! Mae e wedi cael cwnsela i'w helpu i ymdopi â marwolaeth ei chwaer fach a phopeth yr ydym ni wedi gorfod mynd drwyddo.



Oliver Jeans

Mae ef hefyd yn aelod o grŵp Super Sibs gwych Tŷ Hafan ar gyfer brodyr a chwiorydd, ac mae wrth ei fodd â hynny oherwydd ei fod gyda phlant eraill sy'n mynd trwy bethau tebyg. Nid oes rhaid iddo fe ddweud dim byd, os nad yw e eisiau. Maen nhw jyst yn gwybod. Ac mae'r un peth yn wir i ni. Rydym ni ym mhob grŵp. Rydym ni'n gwybod eich bod chi yno os bydd angen unrhyw beth arnom ni.”

Cyfrannu a chefnogi

Heb eich rhoddion chi, ni allem ni wneud yr hyn yr ydym ni'n ei wneud. Rhowch y gofal diwedd oes y maent yn eu haeddu i blant sydd â chyflyrau sy'n byrhau bywyd drwy ein cefnogi ni gyda rhoddion, codi arian neu wirfoddoli (ewch i dudalen 4 o'r rhifyn hwn o *Cwtsh* i ddysgu mwy).

Wyddoch chi...?

Wyddoch chi ein bod ni'n rhoi cerrig man coffa i deuluoedd mewn profedigaeth?

Rydym ni'n cynnig carreg fach i bob teulu sydd wedi colli plentyn, ag enw eu plentyn wedi'i gerfio arni. Gallan nhw fynd ag â hi adref neu ei chadw yn ein gardd goffa hardd.

Wyddoch chi...?

Wyddoch chi ein bod yn cynnal dau wasanaeth coffa bob blwyddyn?

Dwywaith y flwyddyn, mae teuluoedd plant sydd wedi marw yn Tŷ Hafan yn cael gwahoddiad i wasanaeth coffa: gwasanaeth coffa'r haf a gwasanaeth canhwylau yn y gaeaf.



Diwrnod ym mywyd. . . nyrs hosbis

Ni fyddai modd i ni roi safon y gofal yr ydym ni yn ei roi i deuluoedd heb ein fîm gwych yn Hosbis Plant Tŷ Hafan. Ond sut beth yw diwrnod yn eu bywyd mewn gwirionedd? Efallai ei fod yn wahanol i'r hyn yr ydych chi'n ei ddychmygu. Gwnaethom ni siarad ag un o aelodau arbennig ein fîm, Carly Davies, sy'n Nyrs Anabledd Dysgu (RNLD), i gael gwybod.



Carly Davies - Nyrs Anabledd Dysgu

"Peth cyntaf yn y bore, rydym ni'n trosglwyddo gofal. Dyma le mae staff y nos yn dweud wrthym ni sut mae'r plant yn yr hosbis wedi bod dros nos. Mae fy mhatrwm shifft arferol yn cynnwys tair shifft 12 awr bob wythnos, ond rydw i weithiau'n cyflenwi ar gyfer shifftiau nos, hefyd.

"Pan fyddwn ni'n dechrau ein shifft, rydym ni'n cael gwybod pa blentyn a theulu yr ydym ni'n mynd i fod yn gofalu amdany'n nhw'r diwrnod hwnnw - mae'r gofal a'r gefnogaeth yr ydym ni'n eu darparu'n amrywio'n fawr o blentyn i blentyn, gan ddibynnu ar eu hanghenion.

"I fi, nid cyflawni anghenion clinigol y plentyn yn unig yw'r nod, er mai dyna'r flaenoriaeth. Mae'n ymwneud â gwneud eu hamser yma mor bleserus â phosib. Yn aml, mae'n gymysgedd o ddefnyddio'r gwasanaethau y mae'r Tîm Chwarae yn eu cynnig a mynd ati fy hun i ennyn diddordeb y plentyn yn ei hoff weithgareddau.

"Gallai hynny fod yn bob math o wahanol bethau. Mae'r Tîm Chwarae ardderchog yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau fel crefftiau, teithiau cerdded, teithiau diwrnod a hyd yn oed stori dylino. Yn aml, rydw i'n cefnogi'r Tîm Chwarae â gweithgaredd stori dylino. Dyma pryd byddan nhw'n darllen straeon i'r plant, ond mae gan y stori sesiwn dylino wedi'i chynnwys ynddi, a fi sy'n gwneud y tyllino.

"Rydw i'n dod o gefndir y theatr, felly rwy'n ceisio cynnwys hynny gymaint â phosib drwy ganu gyda'r plant... ond weithiau maen nhw'n dweud wrtha' i am stopio! Rwy'n credu pan fydd pobl yn meddwl am ofal hosbis, maen nhw'n meddwl ei fod yn drist iawn. Ac fe all fod. Ond mae yna lawer o agweddau ar Tŷ Hafan sy'n codi calon.

"Er enghraifft, cyn i mi ddechrau, doeddwn i ddim yn gwybod bod yna Dîm Chwarae. Mae'n cynnig ychydig bach mwy i deuluoedd. Rhywbeth rwy'n credu sy'n anhygoel yw'r cyfarpar yn yr ystafell gerdd sy'n galluogi plant sy'n cael trafferth i symud i ddefnyddio eu llygaid i wneud

cerddoriaeth! Felly, gall hyd yn oed plant â symudedd cyfyngedig iawn barhau i fod yn rhan o weithgareddau cyffrous.

"Wrth gwrs, mae 'na heriau sy'n dod yn sgil gweithio mewn hosbis i blant. Mae'n gallu bod yn waith caled ac mae'n gallu bod yn flinedig yn emosiynol, ond mae'n rhoi boddhad mawr. I mi, mae'n anrhydedd mawr fod teulu yn caniatáu i chi fod yn rhan o'u taith. Mae'n arbennig iawn.

"Y rhan orau o fy swydd o bell ffordd yw dod i adnabod y plant a datblygu perthynas gyda nhw a'u teuluoedd. Does dim byd gwell nag ennyn diddordeb plentyn mewn gweithgaredd maen nhw'n dwlu arno ac maen nhw'n gwenu ac maen nhw'n hapus."

Diolch am rannu'ch amser gyda ni Carly.

Ymunwch â Thîm Tŷ Hafan!

Dyma rai o'r manteision y gall ein staff gofal eu mwynhau:

- 30 diwrnod o wyliau (+ mwy gyda gwasanaeth) + Gwyliau Banc
- Taliadau oriau anghymdeithasol a chyfleoedd goramser
- Cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol
- Cyfraniad pensiwn cyflogwr 5% neu'r gallu i barhau â phensiwn y GIG
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr a goruchwyliaeth glinigol ffurfiol
- Cynllun seiclo i'r gwaith a gostyngiadau mewn siopau
- Parcio am ddim ar y safle a phrydau bywd am bris gostyngedig

Mae Tŷ Hafan bob amser yn chwilio am staff gofal hosbis, felly os hoffech chi ymuno â'n tîm, **cysylltwch â ni!** Anfonwch e-bost atom i careers@tyhafan.org neu ewch i'r dudalen Cyfleoedd Gwaith ar ein gwefan www.tyhafan.org/job-opportunities.



Gwirfoddoli gyda Tŷ Hafan

Dyma'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd gennym ni i'w bachu...



Cynorthwydd Manwerthu Gwirfoddol (o dan 18 oed)

Ydych chi'n 16 neu 17 oed ac eisiau gwirfoddoli yn eich cymuned leol? Mae'r rôl hon yn rhoi cymysgedd o brofiadau i chi, gan gynnwys marchnata a phrisio eitemau, siarad â phobl o bob gwahanol gefndir, a meithrin eich sgiliau.

Gwirfoddolwr Stoc Manwerthu

Gallwch ddod yn Wirfoddolwr Ystafell Stoc Manwerthu yn unrhyw un o'n siopau, gan helpu gyda stoc, marchnata a mwy.

Gwirfoddolwr Man Talu a Gwasanaeth Cwsmeriaid

Gallwch ddod yn Wirfoddolwr Man Talu a Gwasanaeth Cwsmeriaid yn unrhyw un o'n siopau, gan helpu cwsmeriaid, cynyddu gwerthiant a mwy.

Cynorthwydd Cegin Gwirfoddol

Mae bwyd da yn ganolog i'r gofal yr ydym ni'n ei ddarparu, o arlwyo ar gyfer anghenion deietegol arbenigol bob dydd i achlysuron arbennig, ac rydym ni'n chwilio am rywun i helpu staff ein cegin. Mae'r rôl hon wedi'i lleoli yn Hosbis Tŷ Hafan yn Sili.

Gwirfoddolwr Crefftau

Yn ein gweithdy crefftau yn ein Prif Swyddfa yn Sili, mae Gwirfoddolwyr Crefftau yn helpu i wneud cynnyrch o ansawdd uchel i werthu yn ein siop Etsy Handcrafted by Tŷ Hafan.

Asiant Blwch Casglu Gwirfoddol

Mae'r Asiant Blwch Casglu Gwirfoddol yn sicrhau bod y blychau casglu allan y gymuned yn cael eu cydlynu a'u casglu. Os allwch chi alw heibio i'ch siopau a'ch canolfannau lleol gerllaw a helpu i gasglu blychau, mae'r rôl hon yn berffaith i chi.

Cydweithiwr Fan Gwirfoddol

Fel Cydweithiwr Fan Gwirfoddol, byddwch chi'n helpu i ddanfon a chasglu dodrefn ac yn helpu ein gyrrwr fan cyflogedig drwy godi a symud eitemau o ddodrefn.

Derbynydd Gwirfoddolwyr

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr cyfeillgar a phrofiadol i ymuno â'n tîm o dderbynyddion. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n gallu gweithio o 1pm - 5pm ar naill ai ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau neu ddydd Gwener, neu ddydd Mercher 9am - 1pm.



Gwirfoddoli gyda ni

Byddai hynny'n wych! Cysylltwch â Deborah John drwy e-bostio deborah.john@tyhafan.org neu ffoniwch 029 2053 2254 i gael mwy o wybodaeth.

crackerjackpot

Prif wobr £2,000


Bob dydd Gwener gallwch chi fod yn enillydd lwcus ein loteri o £2,000 gyda Crackerjackpot - i gyd i gefnogi Tŷ Hafan!

Dim ond £1 yr wythnos i gymryd rhan

Cymerwch ran nawr www.tyhafanlottery.co.uk

BeGambleAware.org

18+



Tŷ HAFAN MEWN NIFEROEDD


ar hyn o bryd




ers 1999



Oedran presennol plant mewn gofal



Plant a dderbyniwyd ers 1999 fesul Bwrdd Iechyd Lleol



0 years

(0 dan flwydd oed)
Oedran cyfartalog ar adeg cyfeirio yn ystod y 12 mis diwethaf



583

Nifer y teuluoedd yn derbyn cymorth cymunedol/teuluol Hydref 2021 - Medi 2022

8

Pobl ifanc sydd wedi mynd ymlaen o wasanaethau plant Ebrill 22 - Medi 22



206

Nifer y teuluoedd yn manteisio ar ofal seibiant byr

14

Plant sydd wedi marw Ebrill 22 - Medi 22



109

323

Nifer y teuluoedd yn manteisio ar gefnogaeth profedigaeth


Plant yn defnyddio gofal argyfwng yn ystod y 12 mis diwethaf

Costau cynnal gofal 2021/22

Costau blynyddol cynnal gofal

£5.2 miliwn


Mae 82c o bob punt o incwm yn cyfrannu at ofal. Nid yw costau gweithredu gweithgareddau masnachol wedi'u cynnwys.



Cost ddyddiol gofal

£ 1 4 , 7 2 7

Cyfanswm incwm



Nifer y troeon yn chwarae'r loteri



Gwirfoddolwyr (ac eithrio digwyddiadau)

500



Llysgenhadon

36



Staff

194



Nifer y siopau





Busnes i fusnes: gweithio gyda ni

Gall eich busnes helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n newid bywyd i'r plant sydd ein hangen ni, o therapi cerdd a chwarae blêr i ofal diwedd oes.



Mae Euro Commercials Mercedes Benz wedi cyflenwi'r fan wych hon

Cost dyddiol gofal Tŷ Hafan yw £14,727. Mae hynny'n £5.2m y flwyddyn. Mae hwn yn swm enfawr ac mae'r busnesau anhygoel sy'n ddigon caredig i gyfrannu yn hollbwysig wrth godi'r arian hwn. Os hoffech chi ddod yn gefnogwr corfforaethol Tŷ Hafan, byddem yn dwlu gweithio gyda chi.

Pam ein cefnogi ni?

Cyfleodd pwrpasol

Nid oes un ateb sy'n addas i bawb o ran cefnogi Tŷ Hafan. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i'r cyfle perffaith i chi a'ch tîm.

Creu cysylltiadau tîm

Mae astudiaethau'n dangos bod 67% o weithwyr yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth eu cydweithwyr pan maen nhw'n gweithio'n hybrid neu'n gweithio gartref. Gall codi arian fagu hyder a chael pawb i weithio fel tîm eto.

Datblygu enw da

Byddwn yn dathlu eich caredigrwydd a'ch haelioni yn rheolaidd, gan eich helpu chi i gyrraedd cwsmeriaid sy'n ymwybodol yn gymdeithasol, cyflawni eich nodau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant a datblygu eich enw da.

Cadw mewn cysylltiad

Cewch chi reolwr cyfrif penodol a fydd yn sicrhau eich bod chi a'ch tîm yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith anhygoel y mae eich arian yn talu amdano i helpu teuluoedd Tŷ Hafan.

Barod i gydweithio?

Cysylltwch â'n Tîm Partneriaeth Gorfforaethol drwy anfon e-bost at joinus@tyhafan.org neu ffonio 029 2053 2199.

Sut gallwch chi gymryd rhan

Partneriaeth gorfforaethol

Pan fyddwch yn dod yn bartner corfforaethol, bydd eich rheolwr cyfrif Tŷ Hafan yn gweithio'n agos gyda chi i greu cynllun penodol i'ch helpu chi i gyrraedd eich nod a manteisio i'r eithaf ar eich buddion.

Marchnata sy'n gysylltiedig ag achos

Mae rhoi canran o'ch elw i Tŷ Hafan yn hyrwyddo eich cynnyrch a'ch gwasanaethau ac yn rhoi incwm rheolaidd i ni.

Rhoi drwy'r gyflogres

Hawdd ei sefydlu ac yn effeithlon o ran treth, mae rhoi drwy'r gyflogres yn rhodd reolaidd sy'n dod yn syth o gyflogau eich gweithwyr pan fyddan nhw'n dewis cymryd rhan.

Noddi digwyddiad

Codwch arian a chynyddwch amlygrwydd eich busnes drwy noddi digwyddiad Tŷ Hafan.

Codi arian

Mae pob math o ffyrdd o godi arian. Pa ffordd bynnag y byddwch chi'n dewis codi arian, bydd ein tîm yn rhoi popeth sydd ei angen arnoch i chi, o gyngor i ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

Cyfrannu

Yn syml, rhowch rodd drwy eich busnes.



Mae gwerthwyr Tai Nuttall Parker yn rhoi £50 o bob gwerthiant i ni



Ble mae eich cyfraniadau chi'n mynd

£14,727

Yn gallu talu am **ddiwrnod llawn o ofal a chymorth meddygol arbenigol** i sawl teulu yn ein hosbis.



£7,000

Yn rhoi **pum diwrnod o ofal seibiant byr i deulu** yn yr hosbis, gan helpu mam a dad i gael hoe sydd mawr ei hangen.

£4,500

Yn talu am **offer codi arbenigol**.

£1,000

Yn gallu talu **costau'r cyflenwadau meddygol** sy'n cael eu defnyddio yn yr hosbis am fis.

£11,000

Yn talu am **got arbenigol**.

£10,000

Yn darparu **gofal nyrsio 24 awr i blentyn am wythnos**, gan roi amser gwerthfawr i rieni heb orfod bod yn ofalwr.




£250

Yn ariannu **pum awr o therapi cerdd** i blentyn yn ei gartref eu hunain.

£50

Yn talu **am awr o therapi cerdd**, gan roi cyfle i blant greu atgofion parhaol gyda'i gilydd.





Dangoswch eich cefnogaeth i'n teuluoedd...

1

Hoffwn roi rhodd o:

 £25 £30 £50 £60 £100 £150 neu Arall £ _____

Defnydd swyddfa yn unig: CCADD9

2

Eich manylion

Enw: _____

Cyfeiriad: _____ Cod post: _____

3

Cynyddwch eich cyfraniad gyda Chymorth Rhodd *giftaid it*

Os ydych yn cytuno i roi Cymorth Rhodd ar eich rhoddion, byddwn ni hefyd yn gallu hawlio Cymorth Rhodd ar unrhyw roddion gennych yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Rydw i'n drethdalwr yn y Deyrnas Unedig ac yn deall os ydw i'n talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth ar Enillion Cyfalaf na swm y Cymorth Rhodd a hawliwyd ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno mai fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth. Mae'r datganiad hwn hefyd yn ymwneud â'r holl roddion yr wyf i wedi'u gwneud i Tŷ Hafan yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf a'r holl roddion rwy'n eu gwneud wedi hynny tan i mi eich hysbysu fel arall.

4

Eich taliad

Hoffwn i dalu drwy: Sic Archeb bost Taleb CAF (Gwnewch yn daladwy i Tŷ Hafan)Neu drwy: Visa Mastercard Debyd

Enw ar y cerdyn: _____

Cyfeiriad deiliad y cerdyn (os yw'n wahanol i'r uchod): _____

Rhif y cerdyn Dyddiad dod i ben / Rhif diogelwch (3 rhif olaf ar gefn y cerdyn) Cerdyn debyd yn unig Dyddiad cyhoeddi / Rhif cyhoeddi

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Os byddai'n well gennych beidio â derbyn llythyr diolch, ticiwch yma

5

A fyddai diddordeb gennych chi mewn derbyn Pecyn Gwybodaeth Etifeddiaeth?

6

Byddem ni wrth ein boddau'n rhoi gwybod i chi ynghylch sut mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth i blant yng Nghymru a ffyrdd eraill y gallwch chi helpu. Rhowch wybod i ni sut yr hoffech glywed gennym ni.

Hoffwn i chi gysylltu â mi drwy: E-bost

Fy nghyfeiriad e-bost i yw: _____

Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd drwy **e-bostio supportercare@tyhafan.org**Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn parchu eich preifatrwydd. Ni fyddwn byth yn gwerthu nac yn rhannu eich manylion ac rydym yn addo eu cadw'n ddiogel. I gael rhagor o fanylion am sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a'i storio, ewch i <http://www.tyhafan.org/data-protection>

Gwledd Gerddorol Nadoligaidd Cymru!

Bydd **Côr Meibion Treorci** a **Callum Scott Howells** yn canu nerth eu pennau i gefnogi **Tŷ Hafan**

Gyda'r nosweithiau'n tywyllu a'r tymheredd yn gostwng, mae dyddiau'r haf wir y tu ôl i ni.

Mae hynny'n golygu y gallwn ni edrych ymlaen at siwmperi, goleuadau'n disgleirio a (... ydy hi'n rhy gynnar i sôn amdano?) y Nadolig!

Yn dod â'r teimlad Nadoligaidd hwnnw i chi i gefnogi Tŷ Hafan, bydd côr meibion eiconig **Treorci** a **Callum Scott Howells** yn perfformio yn Neuadd Dewi Sant nos Fawrth 6 Rhagfyr am 7pm. Bydd y digwyddiad hwn sy'n addas i'r teulu yn cael ei arwain gan ein cefnogwr hyfryd, **Steve Speirs**.

Mae Côr Meibion Treorci wedi bod yn gweithredu ers dros ganrif ac mae'n cael ei werthfawrogi am fod yn un o ensembles corawl mwyaf adnabyddus y byd. Mae'r seren newydd, Callum Scott Howells, wedi gwneud enw iddo'i hun mewn cyfresi fel *It's a Sin*, *Oliver!* a *Lord of the Flies*.

Bydd yr holl elw o'r cyngerdd Nadoligaidd hwn yn mynd i **Hosbis Blant Tŷ Hafan**, gan ein helpu ni i ddarparu gwasanaethau gofal a chymunedol y mae mawr eu hangen i blant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd a'u hanwyliaid yng Nghymru.

Prisiau tocynnau


Pris safonol: £14.00 | £18.00 | £20.00 | £24.00

Dan 16 oed: Tocynnau hanner pris

Defnyddiwr cadair olwyn ynghyd ag un cydymaith:
(cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 029 2087 8444)

Seddi'r stalau: £14.00 y tocyn

(Ffi postio ddewisol £2.00)



I wybod mwy ac i archebu ar-lein, ewch www.stdavidshallcardiff.co.uk/whats-on

Tŷ Hafan

StDavid's Hall
Neuadd Dewi Sant

Noddwyd gan:

euro
COMMERCIALS